# Blwyddyn yr Ych

## Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd



# Stori Ras y Flwyddyn Newydd

Filoedd ar filoedd o flynyddoedd yn ôl – yn wir, mwy o filoedd nag y gallech chi eu cyfri – roedd yr Ymerawdwr Jâd yn brysur iawn yn rhoi trefn ar y byd ac yn gwneud yn siwr fod popeth yn ei le a'i fod e'n gwybod beth oedd yn digwydd ym mhob man a bod popeth yn cael ei gadw yn dwt a threfnus.




Er ei fod yn arbennig o falch o'r ffordd yr oedd amser yn gweithio, roedd rhywbeth yn ei boeni hefyd. Roedd e'n teimlo ei fod, efallai, wedi methu rhywbeth. Un diwrnod, pan roedd e'n cerdded ym Mherllan yr Eirin Nefolaidd (wel, â dweud y gwir, nid un diwrnod oedd hyn, ond cannoedd o flynyddoedd - ond roedd yn teimlo fel un diwrnod iddo fe) fe sylweddolodd yr Ymerawdwr bod angen ffordd o gofnodi'r blynyddoedd. Roedd e'n eithaf hapus gyda'r eiliadau, munudau, oriau, dyddiau a'r misoedd, ond roedd e'n teimlo bod rhywbeth ar goll gyda'r blynyddoedd.

Fe sylweddolodd bod angen enwau yn lle rhifau ar y blynyddoedd – i'w gwneud yn haws i'w cofio. Ac fe allai gael tipyn o hwyl hefyd wrth ffitio enwau'r blynyddoedd gyda'r pethau a ddigwyddodd yn ystod y blynyddoedd hynny gyda'i gilydd. Ond pa enwau i'w dewis? Wrth iddo feddwl am hyn, fe welodd ddau ffenics yn chwarae yn yr awyr uwch ei ben - yn disgyn ac esgyn wrth gwrso'i gilydd. "Dyna'r ateb!" meddyliodd. "Fe wna i gasglu'r anifeiliaid a'r adar at ei gilydd a chynnal ras. Gallaf enwi'r blynyddoedd yn ôl y drefn y byddan nhw'n dod yn y ras. Fe ddewisaf y 12 cyntaf i orffen y ras - bydd hynny'n nifer hawdd i'w gofio."

Ar ôl penderfynu hyn, aeth ati'n syth i alw'r holl anifeiliaid a'r adar at ei gilydd i gymryd rhan yn Y Ras Fawr. Ond pan welodd yr holl anifeiliaid a'r holl adar, fe sylweddolodd efallai y byddai trefnu ras rhyngddyn nhw i gyd ychydig yn anodd a pheryglus. Roedd e braidd yn siomedig achos, fel Ymerawdwr, roedd e'n hoffi digwyddiadau mawr a chrand. Ond gan ei fod wedi penderfynnu mai dim ond 12 o enillwyr yr oedd e eisiau, yna, dim ond 12 o anifeiliad oedd eu hangen arno i roi trefn ar enwau'r blynyddoedd. Ac felly, dewisodd yr anifeiliaid a oedd, yn ei farn ef, yn fwyaf cyfarwydd i bobl. Ond, gan ei fod yn bwyta eirinen wlanog flasus wrth ddewis yr anifeiliaid doedd e ddim yn canolbwyntio'n iawn. Wrth gyfrif yn ôl, fe sylweddolodd ei fod wedi dewis 13 o anifeiliaid sef: Ceiliog, Draig, Ych, Ci, Mwnci, Cwningen, Teigr, Ceffyl, Cath, Mochyn, Llygoden Fawr, Dafad a Neidr. Ar ôl eu trefnu'n rhes wrth gât Perllan yr Eirin Gwlanog Nefolaidd fe ddisgrifiodd y cwrs yr oedd wedi ei ddewis ar gyfer y ras: i fyny'r mynydd ar ochr chwith y berllan, ac yna rownd mewn cylch mawr cyn gorffen drwy groesi'r afon a oedd yn llifo ar ochr dde'r berllan.

Portread o'r Ymerawdwr Jâd wedi'i baentio ar sidan



Dewisodd yr Ymerawdwr sawl math gwahanol o dir ar gyfer cwrs y ras – i roi cyfle teg i'r gwahanol fathau o anifeiliaid. Ond, doedd e ddim wedi meddwl am hyn yn ddigon gofalus. Fel mae'n digwydd, yn y diwedd fe weithiodd pethau'n iawn – ond nid yn y ffordd yr oedd yr Ymerawdwr wedi dychmygu.

*"Yi, er, san, kais hi!"* gwaeddodd yr Ymerawdwr, ac fe ddechreuodd y ras. Fel y byddech yn ei ddisgwyl, llamodd y Ddraig i'r blaen yn syth. Wrth i'r anifeiliaid ddiflannu i fyny'r mynydd cerddodd yr Ymerawdwr yn hamddenol tua'r afon i aros amdanyn nhw. Roedd ganddo fasged fawr o eirin gwlanog blasus i'w bwyta ar y ffordd. Wrth iddo lyncu eirinen wlanog rhif 273 gwelodd yr Ych yn nofio ar draws yr afon a llusgo ei hun allan o'r dŵr. "Wel, wel, wel" meddai wrtho'i hun. *"Pwy fyddai wedi disgwyl hynny?".* Ond dychmygwch ei syndod pan welodd beth ddigwyddodd nesaf.

# Stori Ras y Flwyddyn Newydd

Wrth i'r Ych blannu ei garnau blaen ar lan yr afon, neidiodd y Llygoden Fawr allan o du ôl i'w glustiau a glanio ar y tir gyda gwichiad bach buddugoliaethus cyn rhuthro at y llinell derfyn. Llusgodd yr Ych ar ei ôl gan rwgnach a chwyno am sut yr oedd y Llygoden Fawr wedi ei dwyllo i'w gario ar draws yr afon. Yna daeth gweddill yr anifeiliaid allan o'r dŵr - un ar ôl y llall. Daeth y Teigr yn drydydd, yna'r Gwningen, ac yna'r Ddraig, y Neidr, y Ceffyl, y Ddafad, y Mwnci, y Ceiliog, y Ci a'r Mochyn.

Fe safon nhw o gwmpas am ychydig - yn aros am y Gath. Pan gyrhaeddodd y Gath roedd yn cwyno'n uchel fod y Ci wedi ei thwyllo a'i gwthio oddi ar y boncyff yr oedden nhw wedi ei defnyddio i groesi'r afon. Ond gan nad oedd unrhyw reolau ar gyfer y ras (heblaw cyrraedd y diwedd mor gyflym â phosib) doedd neb eisiau gwrando ar gwynion y Gath.



Gardd Dsieineaidd draddodiadol

Rhedodd y Gath i ffwrdd, gan ddal i gwyno a thyngu y byddai'n dial ar y Ci. Er bod Yr Ymerawdwr Jâd yn falch iawn gyda chanlyniad y râs, roedd e hefyd yn pendroni pam nad oedd rhai o'r anifeiliaid wedi gwneud cystal â'r disgwyl. Dywedodd y Ddraig (a allai fod wedi ennill y ras yn rhwydd) ei bod wedi stopio sawl tro ar hyd y ffordd i helpu pobl a oedd mewn trafferth – wedi'r cyfan, dyna yw natur dreigiau Tsieineaidd. Dywedodd y Ci fod y Gath wedi ymladd yn fwy ffyrnig nag yr oedd wedi ei ddisgwyl a'i fod wedi gorfod stopio i lyfu'r holl grafiadau. Cyfaddefodd y Mochyn ei fod wedi stopio am sawl snac a brecwast ysgafn ar hyd y ffordd.

Dywedodd yr Ymerawdwr Jâd fod pob un ohonyn nhw wedi ymddwyn yn ôl eu natur – yn enwedig y Llygoden Fawr dwyllodrus a'r Mochyn barus. Gwnaeth gofnod gofalus o ganlyniad y ras ar sgrôl melyn hir a'i hongian ar gât Perllan yr Eirin Gwlanog Nefolaidd. Mae'n dal i hongian yno, siwr o fod  Ac mae rhai pethau dal yn wir hyd heddiw, sef mai Blwyddyn y Llygoden Fawr yw blwyddyn gyntaf y Sidydd, Blwyddyn y Mochyn yw'r olaf, a dyw'r Gath dal heb faddau i'r Ci.

Gan fod hyn i gyd wedi digwydd amser maith yn ôl, does neb yn hollol siwr beth yn union ddigwyddodd yn ystod y ras, na phwy wnaeth beth i bwy. Yr unig beth yr ydym yn gwybod yn sicr, yw'r drefn y gorffenodd yr anifeiliaid y ras.

Cerfiad o ddraig Tsieineaidd mewn teml



BRITISH COUNCIL

# Gweithgaredd: rhoi digwyddiadau stori Ras y Flwyddyn Newydd yn eu trefn

Bydd angen llungopio'r dudalen yma. Ar ôl torri'r brawddegau i fyny, gosodwch nhw yn y drefn y maent yn ymddangos yn stori Ras y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

**Penderfynodd y byddai'n trefnu ras rhwng yr anifeiliaid. Ym mha bynnag drefn y byddai'r anifeiliaid yn gorffen y ras, dyna fyddai trefn y blynyddoedd.**

**Dechreuodd y ras rhwng yr anifeiliaid. Roedd y Ddraig ar y blaen ar y dechrau, ond wrth i'r anifeiliaid groesi'r afon, yr Ych oedd yn arwain y ras.**

**Dechreuodd un deg tri o anifeiliaid y ras, sef: y Ceiliog, y Ddraig, yr Ych, y Ci, y Mwnci, y Gwningen, y Teigr, y Ceffyl, y Gath, y Llygoden Fawr, y Ddafad a'r Neidr.**


**Daeth y Mochyn yn olaf ac fe redodd y Gath i ffwrdd.**

**Flynyddoedd maith yn ôl, roedd yr Ymerawdwr Jâd eisiau ffeindio ffordd i nodi'r blynyddoedd wrth iddynt fynd heibio.**

**Ysgrifennodd yr Ymerawdwr Jâd ganlyniad y ras ar sgrôl i bawb gael gweld.**

**Wrth i'r Ych gyrraedd glan yr afon, neidiodd y Llygoden Fawr oddi ar ben yr Ych a rhuthro i ennill y ras.**

**Hyd heddiw, Blwyddyn y Llygoden Fawr yw'r flwyddyn gyntaf yng nghylchdro 12 mlynedd y Sidydd, a Blwyddyn y Mochyn yw'r olaf.**



Torrwch y rhain allan

BRITISH COUNCIL

**NOD:** adrodd fersiwn o stori ras yr anifeiliaid sy'n esbonio cylchdro 12 mlynedd y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd

**AMCANION:**
- creu pypedau cysgod o'r anifeiliaid
- perfformio drama'n seiliedig ar stori Ras y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd

**CYSYLLTIADAU CWRICWLWM:** Cymraeg, Saesneg, Celf a Dylunio, Dylunio a Thechnoleg ac Ieithoedd

**SGILIAU DINASYDDIAETH A GOLYGON BYD-EANG:** meddwl yn greadigol, cydweithio a chyfathrebu

# Cynllun gwers: Stori Ras y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a phypedau cysgod

## Paratoadau ac adnoddau

Bydd angen: 'Taflen Weithgaredd: creu pyped cysgod Tsieineaidd', llungopiau o dempledi'r pypedau, cerdyn, tâp masgio, pennau ffelt trwchus / creonau, siswrn, pwnsh tyllau / mynawyd, cryfhawyr tyllau, caewyr papur pres, dau ddarn o bren tenau (gallwch ddefnyddio prennau lolipop, chopsticks neu wiail gardd), offerynnau cerdd, golau (ee lamp gyda phen y gellir ei gyfeirio), sgrin o bapur cwyr a bocs cardfwrdd (neu liain cotwm).

## Gwybodaeth gefndir

Credir bod gwreiddiau pypedau cysgod yn Tsieina yn ymestyn yn ôl dros 2,000 o flynyddoedd; ond mae'r dystiolaeth hanesyddol gyntaf yn dyddio o gyfnod Brenhinlin Song rhwng 960-1279 OC. Roeddynt yn un o'r ffurfiau celf gwerin mwyaf poblogaidd a chyffredin yn Tsieina ac yn ffordd o adrodd straeon drwy daflunio pypedau ar sgrin i gyfeiliant cerddoriaeth. Ar y dechrau defnyddiwyd papur i greu'r pypedau, ac yna defnyddiwyd croen asynod neu ychen. Dyna sy'n esbonio tarddiad enw Tsieinëeg y pypedau – 皮影 (*pí yǐng*), sef, 'cysgodion y crwyn'. Mae'r pypedau hardd yma'n cael eu hystyried yn weithiau celf ynddynt eu hunain, ond maent yn dod yn fyw pan fo golau'n disgleirio arnynt ac mae'r perfformiad yn dechrau. Yn wir, y gair Tsieinëeg am ffilm yw 电影 (*diàn yǐng*) sef 'cysgodion trydan'.

## Cyflwyniad a gweithgaredd i gychwyn

Ar ôl creu'r pypedau, gofynnwch i'ch dysgwyr adrodd prif ddigwyddiadau'r stori wrth ei gilydd o'u cof. Gallwch ddefnyddio 'Taflen Weithgaredd: rhoi trefn ar ddigwyddiadau Stori Ras y Flwyddyn Newydd' hefyd.

Dewiswch un o'r cymeriadau – naill ai'r Llygoden Fawr, yr Ych, y Gath, y Mochyn neu'r Ddraig – a byrfyfyrio sut y byddai'r anifail yna'n esbonio ei ran yn y stori. Gallwch recordio hyn ar ddyfeisiau fel Easi-Speaks neu iPad gan ddefnyddio lleisiau addas a'u rhannu gyda gweddill y dosbarth.


## Prif weithgaredd

Trafodwch hanes a gwreiddiau pypedau cysgod Tsieineaidd ac esboniwch fod sawl fersiwn o'r stori draddodiadol.

Rhannwch y dosbarth i grwpiau o chwech. Rhowch un o'r templedi o gymeriadau'r anifeiliaid o stori Ras y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd i bob grŵp. Darllenwch gyfarwyddiadau 'Taflen Weithgareddau; creu pyped cysgod Tsieineaidd' gyda'r dysgwyr i esbonio sut i greu pyped cysgod symudol syml. Os yw'r dysgwyr yn defnyddio mynawyd i wneud tyllau, gofalwch eu bod yn ei ddefnyddio'n ofalus.

Gallwch ddangos rhai o'r ffilmiau rhagorol sydd ar y wefan Pypedau Tsieineaidd: http://tinyurl.com/ng2xxzb - sydd hefyd yn dangos sut i greu pypedau cysgod symudol.

Pan fydd pawb wedi gorffen creu'r pypedau, gallwch greu sgrin drwy ddefnyddio lamp i daflunio ar liain lliw golau neu sgrin papur cwyr. Neu, gallwch greu theatr fach drwy dorri ochr bocs allan a gosod papur cwyr neu seloffen dros yr ochr agored ac addurno blaen y bocs.




# Gweithgaredd: creu pyped cysgod Tsieineaidd

Bydd angen:


- cerdyn lliw golau
- tâp masgio
- pennau ffelt/pensiliau/creonau
- siswrn
- mynawyd (bradawl)
- cryfhawyr tyllau (ar gyfer papur)
- caewyr papur press
- prennau (prennau lolipop, chopsticks neu wiail gardd)




1 Dewiswch un o'r templedi a ddarperir a chopiwch amlinell y pyped ar ddarn o gerdyn lliw golau. Os dymunwch gallwch liwio'r pyped gyda phennau ffelt, pensiliau neu greonau.




2 Ewch dros yr amlinellau gyda phen ffelt trwchus a thorrwch y darnau allan yn ofalus.



3 Yn ofalus, gwnewch dyllau gyda'r mynawyd drwy'r pwyntiau a nodir gyda 'x' ac atgyfnerthwch gefn bob twll gyda chryfhawyr tyllau papur i sicrhau nad ydynt yn rhwygo.



4 Cysylltwch y darnau symudol i gorff y prif byped drwy wthio'r caewyr papur pres drwy'r tyllau wedi'u cryfhau ar ochr flaen y pyped a'u hagor allan ar yr ochr gefn.




BRITISH COUNCIL

Nesaf, mae angen creu'r atodiadau colfachog (hinged) i gydio'r pren wrth y pypedau. Bydd y rhain yn eich galluogi i ddal y prennau ar ongl i'r pypedau, a sicrhau na fydd y prennau na dwylo'r pypedwyr yn  dangos ar y sgrin.



5


I ddechrau, glynnwch ddarn 10cm o dâp masgio ar draws dop eich pren, plygwch y tâp drosodd cwpl o weithiau ac yna gwasgwch y tâp yn fflat i greu siâp 'rhaw fach' ar dop y pren.



6

Gyda darn byrrach o dâp, glynnwch y 'rhaw fach' o dâp (nid y pren ei hun) i gefn corff y pyped. Gwthiwch y pren i fyny, a glynnwch du isaf y 'rhaw fach' i gorff y pyped hefyd. Mae hyn yn creu dolen golfachog.

Torrwch unrhyw dâp sydd yn y golwg o flaen y pyped i ffwrdd.



7


Dilynwch yr un broses ar gyfer pob rhan o'r pyped, fel bod gan bob darn ei ddolen golfachog ei hun.



8

Defnyddiwch lamp i fwrw golau ar liain lliw golau neu sgrin o bapur cwyr.

Bydd angen ymarfer symud eich pypedau o flaen y golau i wneud i'r cysgodion symud. Defnyddiwch y prennau i ddal eich pypedau'n agos i'r sgrin gan gadw eich dwylo ymhellach yn ôl (fel nad ydynt yn ymddangos ar y sgrin).





Templed y Ddraig

Torrwch o amgylch amlinellau rhannau'r pyped. Mae'r croesau'n dangos lle y dylid gosod y caewyr papur.


---

Templed y Llygoden Fawr








## Templed yr Ymerawdwr




## Templed yr Ych












Torrwch o amgylch amlinellau rhannau’r pyped. Mae’r croesau’n dangos lle dylid gosod y caewyr papur.







Templed y Ci

Templed y Gath



Torrwch o amgylch amlinellau rhannau'r pyped. Mae'r croesau'n dangos lle y dylid gosod y caewyr papur.






Cysylltwch y coesau blaen y tu ôl i ran y pen.

# Gweithgaredd: creu llusern Tsieineaidd


Bydd angen:

- darn o gerdyn A4 (unrhyw liw)
- siswrn
- staplwr neu selotep


1 Torrwch stribed tua 3cm o led ar hyd ochr byrraf y cerdyn. Byddwch yn defnyddio hwn i greu dolen y llusern.




2 Plygwch weddill y darn o gerdyn yn ei hanner – ar ei hyd.



3 Torrwch linell syth ar draws plyg y garden, tua 2cm i mewn o ymyl y garden gan stopio tua 3cm o'r ymyl wedi plygu. Peidiwch â thorri'r holl ffordd ar draws!




4 Ailadroddwch Gam 3 ar draws y cerdyn, gyda'r toriadau tua 2cm ar wahân.




## 5

Agorwch y cerdyn allan, a'i blygu rownd nes bod y ddwy ochr fyraf yn gorlapio'i gilydd. Defnyddiwch staplwr i'w glynnu at ei gilydd ar y top a'r gwaelod (neu gallwch ddefnyddio selotep i'w glynnu).



## 6

Gwasgwch y llusern i lawr ychydig nes bod y canol yn cael ei wthio allan. Defnyddiwch staplwr i gysylltu'r stribed sy'n creu dolen y llusern i naill ochr top y llusern.



## 7

Gallwch addurno'r llusern fel y dymunwch, a hongian rhes o lusernau o wahanol liwiau ar hyd cortyn o'r nenfwd.

